


Diocese of Llandaff

Where Faith Matters



Lle mae Ffydd yn Cyfrif

Esgobaeth Llandaf

Our Vision

We believe faith matters.

Our vision is that all may encounter and know the love of God through truth, beauty and service, living full and rich lives through faith.

Transforming lives through living and bearing witness to Jesus Christ is our calling. We seek to do this in a Diocese that is strong, confident, alive and living in faith, engaged with the realities of life and serving others in His name.

Our profound belief in the sovereignty of God means that we will look to continue Christ's church and mission by telling the joyful story of Jesus, growing the Kingdom of God by empowering all to participate and building the future in hope and love.

Our shared aims

Telling a joyful story

Growing the Kingdom of God

Building our capacity for good

Our character

How we will work together and who we will be is vital in what we aim to achieve.

By 2023, we will have:

- an increased sense of prayerfulness across all we do;
- changed the culture so that we are hopeful, confident, encouraging and adaptive, even in the face of a future which we know is not simple;
- become agile at delivering on our ambitions;
- developed team-working instincts and skills at every level of the Diocese;
- a strong lay voice within our decision-making;
- clergy who are under less strain, feel valued, and lead by example;
- fostered leaders who are delivering collaboratively on our agreed goals and objectives.

Ein gweledigaeth

Credwn fod Ffydd o bwys mawr.

Ein gweledigaeth ni yw y gall pob un weld cariad Duw a'i adnabod yn yr hyn sydd wir, yr hyn sydd hardd a thrwy wasanaethu, gan fyw bywydau llawn a chyfoethog mewn ffydd.

Ein galwad ni yw i drawsnewid bywydau drwy fyw a thystio i Iesu Grist. Ceisiwn wneud hyn mewn Esgobaeth fyw, gref, hyderus, sy'n byw mewn ffydd ac yn ymwneud â realiti bywyd a chan wasanaethu eraill yn ei enw Ef.

Mae cydnabod Duw yn nyfnder ein henaid fel pen ac arglwydd yn ein cymell i weithio tuag at sicrhau parhad eglwys a chenhadaeth Crist drwy adrodd hanes dyrchafol Iesu, lledaenu teyrnas Dduw drwy alluogi pob un i fod â rhan ynddi, ac i fynd ymlaen i adeiladu'r dyfodol yn llawn ffydd a chariad.

Ein nodau cyffredin

Adrodd stori lawen

Tyfu teyrnas Dduw

Adeiladu'n gallu i wneud daioni

Ein cymeriad

Mae sut y cydweithiwn a phwy fyddwn ni yn hanfodol o ran yr hyn y ceisiwn ei gyflawni. Erbyn 2023:

- bydd gennym well ymwybyddiaeth o weddigarwch ym mhopeth a wnawn;
- byddwn wedi newid y diwylliant fel ein bod yn obeithiol, yn hyderus, yn llawnanogaeth ac yn barod i addasu, hyd yn oed yn wyneb dyfodol y gwyddom na fydd yn syml;
- byddwn yn dod yn ystwyth wrth wireddu'n huchelgais;
- byddwn wedi datblygu greddfau a sgiliau mewn gwaith tîm ar bob lefel yn yr Esgobaeth;
- bydd gennym lais lleyg cryf o fewn ein prosesau penderfynu;
- bydd gennym glerigwyr sydd o dan lai o straen, sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac sy'n arwain drwy esiampl;
- byddwn wedi meithrin arweinwyr sy'n cyd-gyflawni'n nodau a'n hamcanion cytûn.

Telling a joyful story

of God's love and hope through a confident sharing of faith and service in our communities, which transforms lives


Faith matters because it can change the story we tell. In telling the truth of our Christian story we are telling a story of hope and love for all. That story and the story of our churches and our communities is something we are called to share with others, to bear witness to and to reach out and offer ourselves to others. However we tell that story, through service, through words, the beauty of music, the art, the landscapes, the architecture, we offer an encounter that can change lives.

We will:

- 1.1 shift the focus of church life to outreach, the joy of service, partnerships and outward-facing projects that make a difference to people's lives in our communities
- 1.2 celebrate our faith and key times in our lives with everyone in our communities through art, music, story and events that bring people together
- 1.3 explore our Welsh Anglican identity and improve how we express being a bi-lingual church
- 1.4 strengthen our links with partners in the wider global church
- 1.5 work at better ways to communicate and share our messages



parishes



36 messy churches

Adrodd stori lawen

am gariad a gobaith Duw drwy rannu ffydd a gwasanaeth yn hyderus yn ein cymunedau, sef rhannu sy'n gweddnwid bywydau

Mae ffydd yn cyfrif am ei bod yn gallu newid y stori a adroddwn. Wrth adrodd gwirionedd ein stori Gristnogol, rydym yn adrodd stori o obaith a chariad i bawb.

Mae'r stori honno a stori'n heglwysi a'n cymunedau, yn rhywbeth rydyn ni'n cael ein galw i'w rhannu gydag eraill, i dystio iddi, gan ymestyn allan a chynnig ein hunain i bobl eraill. Sut bynnag yr adroddwn y stori hon, drwy wasanaeth, drwy eiriau, drwy harddwch cerddoriaeth, celf, tirweddau, pensaerniaeth, rydym yn cynnig cyfarfyddiad a all newid bywydau.

Fe fyddwn:

- 1.1 yn newid ffocws bywyd yr eglwys tuag at estyn allan, llawenydd gwasanaeth, partneriaethau a phrosiectau sy'n wynebu allan ac sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yn ein cymunedau
- 1.2 yn dathlu'n ffydd a'r adegau allweddol yn ein bywydau gyda phawb yn ein cymunedau drwy gelf, cerddoriaeth, storïau a digwyddiadau sy'n dod â phobl at ei gilydd
- 1.3 yn ystyried ein hunaniaeth Anglicanaidd Gymreig a gwella'n ffordd o fod yn eglwys ddwyieithog
- 1.4 yn cryfhau'n cysylltiadau â phartneriaid yn yr eglwys fyd-eang ehangach
- 1.5 yn gweithio ar ffyrdd gwell i gyfleu a rhannu'n neges



11,952
communicants
, Christmas
2017

4 hosted Foodbanks,
2 Food Co-Operatives
and most churches with
collection points



12,507
communicants,
Easter
2017



Growing the Kingdom of God,

building a future where faith matters, through innovation and the courage to adapt

Faith matters because it brings us closer to a relationship with God through Jesus Christ. In seeking to grow the kingdom of God, we seek the truth and the beauty that lies at the heart of the gospel, in the sacraments and in our joint acts of worship. To express that truth fully and for our life together in faith, we need churches, parishes, our Cathedral and our schools to be supported in the best way possible and opportunities for service identified; clear plans for ministry in a range of traditions, well-trained clergy and lay leaders, clear pathways for spiritual growth and discipleship. For schools, children, young people and young adults it means providing opportunities for exploring and nurturing faith whether through informal fellowship or through innovations such as a resource church. And this all requires the sustainable management of resources, finances, funding and staff in place to help deliver and be accountable for the activity undertaken.

We will:

- 2.1 develop a clear plan for ministry offered in the diocese to fit the needs of mission for now and what lies ahead
- 2.2 focus on the opportunities of education, in our Church Schools and in community schools, for transforming lives
- 2.3 encourage and nurture children, young people and young adults in addressing and exploring matters of faith
- 2.4 provide training for both laity and the ordained to serve our plan for ministry
- 2.5 strengthen and rethink mission in key identified areas across the Diocese building where possible around strong ecumenical and interfaith relationships
- 2.6 develop a sustainable approach to Church buildings which offers increased support for parishes
- 2.7 ensure diocesan finances, staffing and resourcing are fit for purpose
- 2.8 support the Cathedral in its changes and development so that it is seen as being at the heart of its Diocese



25 Church schools, 8,459 pupils and 186 foundation governors

Tyfu teyrnas Dduw,

gan adeiladu dyfodol lle mae ffydd yn cyfrif, drwy arloesi a thrwy'r dewrder i addasu

Mae ffydd yn cyfrif am ei bod yn dod â ni'n nes at berthynas â Duw drwy Iesu Grist. Wrth geisio tyfu teyrnas Dduw, rydym yn chwilio am y gwirionedd a'r harddwch sydd wrth graidd yr efengyl, yn y sagrafennau ac yn ein cydaddoli. Er mwyn mynegi'r gwirionedd hwn yn gyflawn ac er mwyn ein bywyd gyda'n gilydd mewn ffydd, mae arnon ni angen i'n heglwysi, ein plwyfi, ein Heglwys Gadeiriol a'n hysgolion gael eu cefnogi yn y ffordd orau posibl gan nodi cyfleoedd i wasanaethu; cynlluniau clir ar gyfer gweinidogaethu mewn ystod o draddodiadau, clerigwyr a darllenwyr llewg sydd wedi'u hyfforddi'n dda, llwybrau clir ar gyfer twf ysbrydol a disgyblaeth. I ysgolion, plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc mae hyn yn golygu rhoi cyfleoedd i ystyried a meithrin ffydd boed drwy gymdeithas anffurfiol ynteu drwy arloesi megis ag eglwys adnoddau. Ac mae hyn i gyd yn gofyn i adnoddau gael eu rheoli mewn modd cynaliadwy a bod cyllid a staff ar gael i helpu i gyflawni pethau ac i fod yn atebol am y gweithgareddau.

Fe fyddwn:

- 2.1 yn datblygu cynllun clir ar gyfer y weinidogaeth a gynigir yn yr esgobaeth a hwnnw'n cyd-fynd ag anghenion cenhadaeth ar gyfer y presennol a'r dyfodol
- 2.2 yn canolbwyntio ar gyfleoedd byd addysg i weddnewid bywydau, yn ein Hysgolion Eglwysig ac mewn ysgolion cymunedol
- 2.3 yn annog ac yn magu plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc wrth bwysu a mesur a mynd i'r afael â materion ffydd
- 2.4 yn darparu hyfforddiant i leygwyr a phobl ordeiniedig i wasanaethu'n cynllun gweinidogaeth
- 2.5 yn cryfhau ac yn ailystyried cenhadaeth mewn meysydd allweddol penodol ledled yr Esgobaeth, gan adeiladu lle bo modd ar berthnasoedd ecwmenaidd a pherthnasoedd rhyng-ffydd cryf
- 2.6 yn datblygu ymagwedd gynaliadwy at adeiladau'r Eglwys, a honno'n cynnig mwy o gymorth i'r plwyfi
- 2.7 yn sicrhau bod cyllid, staff ac adnoddau'r esgobaeth yn addas at eu dibenion
- 2.8 yn helpu'r Eglwys Gadeiriol i newid ac i ddatblygu fel y gwelir ei bod wrth galon yr Esgobaeth

Population 1,044,000



Building our capacity for good

by articulating faith, growing leadership and producing better decision-making

Faith matters because through it we live lives to the full. Each of us has our gifts whatever our age or circumstances and each of us has our role to play whether in seeking and sharing the truth of the Gospel, conveying beauty or supporting each other and furthering God's work through service.

We will:


- 3.1 engage with parishes to build a confident and joyful local church serving their communities
- 3.2 increase the voice of the laity in the diocesan structures and roles of responsibility
- 3.3 recruit able clergy to realistic posts and ensure they are well supported in their vocation, caring for their wellbeing and spiritual growth
- 3.4 increase vocations to ordained and lay ministry
- 3.5 work with one another and those outside of church in a spirit of compassion, curiosity and courtesy
- 3.6 build a healthy organisation where our committees and conferences work at their very best and make good decisions for our future ministry and mission



58 readers



4 dementia
cafes and 300
people to be
trained as
Dementia
Friends



Adeiladau'n gallu i wneud daioni

drwy fynegi ffydd, cynyddu arweinyddiaeth a chreu gwell prosesau penderfynu

Mae ffydd yn cyfrif am mai drwy ffydd y byddwn yn byw bywyd i'r eithaf. Mae gan bob un ohonom ein doniau, beth bynnag ein hoed neu'n hamgylchiadau ac mae gan bob un ohonom ein rhan i'w chwarae boed wrth geisio a rhannu gwirionedd yr Efengyl, cyfleu harddwch neu helpu'n gilydd a hybu gwaith Duw drwy wasanaeth.

Fe fyddwn:

- 3.1 yn ymwneud â'r plwyfi er mwyn adeiladu eglwysi lleol hyderus a llawen sy'n gwasanaethu eu cymunedau
- 3.2 yn cynyddu llais y lleygwyr yn strwythur yr esgobaeth ac mewn swyddi cyfrifol
- 3.3 yn recriwtio clergwyr galluog i swyddi realistig, gan sicrhau bod ganddyn nhw gefnogaeth dda yn eu galwedigaeth, a gofalu am eu llesiant a'u twf ysbrydol
- 3.4 yn cynyddu galwedigaethau i'r weinidogaeth ordeiniedig a lleyg
- 3.5 yn gweithio gyda'n gilydd a chyda'r rhai sydd y tu allan i'r eglwys mewn ysbryd trugarog, chwilfrydig a chwrtais
- 3.6 yn adeiladu sefydliad iach lle mae'n pwyllgorau a'n cynadleddau'n gweithio eu gorau glas ac yn gwneud penderfyniadau da ar gyfer ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth yn y dyfodol





126 clergy



110 retired,
active clergy




Parish officers:
225 Churchwardens,
106 PCC Secretaries
and 93 Treasurers



11,856 Church members
on the electoral roll in 2017

Diocese of Llandaff



Esgobaeth Llandaf